



Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2015

Dydd Sadwrn 23 Ionawr 2016
Canolfan Soar, Merthyr Tudful

Presennol: Lis McLean, Menter Iaith Merthyr Tudful; Huw Williams, Ymgyrch TAG; Lynne Davies, RhAG Sir Fynwy; Heini Gruffudd, RhAG Abertawe; Catrin Stevens, RhAG Abertawe; Michael Jones, RhAG Caerdydd; Elin Maher, RhAG Casnewydd; Helen Prosser, RhAG RhCT; Cyng. Phil Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; Ann Angell, Mudiad Meithrin; Nia Parker, Mudiad Meithrin; Gerald Latter, Cronfa Glyndŵr; Bryan James, Cronfa Glyndŵr; Sion Aled Owen, Prifysgol Bangor; Dyfrig Morgan; Rhisiart Owen, Mudiad Addysg Gymraeg Gogledd Ddwyrain Powys; Steffan Wiliam, Cyfieithydd; Ceri Owen, Cyfarwyddwr Datblygu RhAG

Ymddiheuriadau: Tim Pearce, RhAG Bro Morgannwg; Ben Jones, RhAG Caerffili; Alan Lewis, RhAG Sir Fynwy; Lisa Wilson, RhAG Pen-y-bont; Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, UCAC; Arfon Jones, RhAG Wrecsam; Glyn Davies, RhAG Torfaen; Menna Jenkins, RhAG Abertawe; Sioned Hughes, Prif Weithredwr, Urdd Gobaith Cymru; Wyn Williams, Cynghrair Cymunedau Cymru; Catrin Saunders, Cydlynnydd Cenedlaethol Cynorthwyol, TWF; Bethan Webb, Llywodraeth Cymru; Awen Penri, Llywodraeth Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 10 yb
Croesawyd pawb i'r gynhadledd gan y Cadeirydd (LD)
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
1. Ymddiheuriadau Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.
2. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2014 Cytunwyd bod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth. Cynigiwyd gan Lynne Davies ac eiliwyd gan Elin Maher.
3. Uchafbwyntiau'r flwyddyn ac Adroddiad Blynyddol 2014-15 Rhoddodd CO adroddiad o'i gwaith gan dynnu sylw at y prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn a fu. Cyflwynodd drosolwg o sefyllfa gyfredol y siroedd gan gyfeirio at rhai o'r prif faterion oedd wedi'i crynhoi yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ymysg y mynychwyr. <ul style="list-style-type: none">• Wedi ehangu ein gweithgarwch yn ystod y flwyddyn.• Ymgynghoriadau – lleol a chenedlaethol – wedi ymateb i nifer yn ystod y flwyddyn

- Wedi cynorthwyo nifer o deuluoedd mewn apeliadau cludiant ym Mhowys.
- Mae'r sefyllfa economaidd yn bryder o hyd. Mae arian cyfalaf yn allweddol i sicrhau twf gwirioneddol yn y sector
- Cyfraniad pwysig i'w wneud o hyd gan RhAG. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod bod RhAG yn bartner er mwyn cyrraedd y nod. Mae nifer y rhieni sy'n cysylltu am gymorth a chynghor yn parhau i gynyddu ac o ganlyniad i hyn, mae llwyth gwaith y mudiad yn sylweddol, er bod ein cyllideb mewn gwirionedd yn fychan. Mae galw o hyd am ladmerydd dros fuddiannau rhieni sydd am sicrhau addysg Gymraeg i'w plant.

4. Adroddiad y Trysorydd:

- Rhoddodd LD adroddiad byr yn absenoldeb y trysorydd (AL)
- Cafwyd cadarnhad y bydd grant RhAG o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen yn dod o adran Addysg y Llywodraeth yn hytrach nag adran y Gymraeg yn y Gymuned. Mae hyn yn gwneud llawer mwy o synnwyr o safbwynt ein gweithgarwch.
- Gwelwyd gostyngiad pellach yng nghyfanswm yr arian yn y cyfrif ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 14/15.
- Yr ydym yn parhau i wario mwy nac yr ydym yn ei gael mewn derbyniadau, ond nodwyd bod y lleihad yn llai na'r blynyddoedd cynt.
- Mae angen canfod ffyrdd i gynyddu'r incwm ac angen mwy o ymdrech i ddenu arian aelodaeth. Gwnaed apêl i aelodau'n lleol gefnogi gyda'r gwaith o gasglu arian aelodaeth gan ysgolion. Awgrymwyd ein bod yn llunio llythyr templad er mwyn tynnu sylw at waith RhAG.
- Cofnodwyd ein diolch i Alan am ei waith aruthrol dros y flwyddyn ddiwethaf.

5. Ethol Swyddogion 2014-15

- Diolchodd LD i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Nodwyd y bydd angen Cadeirydd a Thrysorydd newydd gan fod tymor LD ac AL wedi dod i ben. LD yn hapus i gydweithio gyda deilydd newydd y swydd er mwyn rhoi'r strwythur cyfansoddiadol / gweinyddol newydd yn ei le. Cytunodd LD i barhau â'r swydd yn y cyfamser.
- Cytunodd Elin Maher i barhau fel is-gadeirydd.
- Gwnaed apêl am waed newydd: mae swyddi'r is-drysorydd a'r is-ysgrifennydd yn wag.
- Nodwyd bod y swyddogion eraill yn fodlon parhau

6. Cynllun Gweithredu 2015-16

- Cytunwyd i drafod y ddogfen ymhellach fel sail i drafodaeth o'r llawr yn hwyrach ymlaen yn y cyfarfod.
- Bydd angen i'r cynllun geisio adlewyrchu anghenion amrywiol ardaloedd mewn un cynllun strwythuredig, canolog a chenedlaethol.
- Croesawyd unrhyw syniadau neu awgrymiadau am ffrydiau gwaith, prosiectau penodol neu ymchwil y dylid ymgymryd â hwy.
- Nodwyd y rhwystredigaeth all fodoli mewn perthynas ag achosion sy'n deilwng i fynd i Arolwg Barnwrol. Mae diffyg cylli yn broblem sylfaenol a'r angen i weithredu o fewn 3 mis yn heriol tu hwnt. Mae angen canfod rhywun ag arbenigedd i roi arweiniad ar hyn.

7. Cyfarfodydd Pwyllgor Cenedlaethol

- Cytunwyd y dylid parhau gyda'r patrwm presennol o gynnal cyfarfodydd misol mewn lleoliadau sy'n ganolog i bawb.
- Awgrymwyd y dylid ymdrechu i ganfod ffyrdd a fyddai'n cynnwys mwy o leisiau o'r gogledd ac o ardaloedd eraill nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu cynrychioli ar y pwyllgor.
- Awgrymwyd y dylid cysyllti â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weld a fyddai modd gwneud defnydd o'u rhwydwaith fideo-gynadledda.
- Gellid gwneud defnydd o dechnoleg megis *Skype*, *Facetime* a *Webex*. Cytunwyd y dylid cynnal arbrawf cychwynol i dreialu hyn.

8. Thema a lleoliad Cynhadledd 2016

- Awgrymwyd a chytunwyd ein bod yn yn ymweld â Chasnewydd i ddathlu agor yr ysgol uwchradd newydd.

9. UFA

- Nodwyd marwolaeth diweddar Dr John Davies (Abertawe) a'i gyfraniad sylweddol i'r mudiad Addysg Gymraeg. Cytunwyd i anfon llythyr cydymdeimlad at y teulu. Awgrymwyd hefyd y dylwn gynnwys erthygl yn y rhifyn nesaf o Rhagolwg.
- Mae'n arwyddocaol nad yw Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na Safonau'r Gymraeg wedi eu hadlewyrchu yn y CSGAau. Mae angen tynnu sylw at hyn.
- Dim sôn am Adroddiad ESTYN ar y CSGAau nag Adroddiad Gwerthuso ARAD ar y Strategaeth sydd heb ei gyhoeddi
- Gwnaed apêl am fwy o wirfoddolwyr i eistedd ar y Pwyllgor Cenedlaethol.
- Diolchwyd i Ganolfan Soar am gael cynnal y gynhadledd yno ac i'r Fenter am hwyluso'r trefniadau.

Siaradwyr gwadd

Lis McLean

Cafwyd trosolwg o sefyllfa'r Gymraeg ym Merthyr. Mynegwyd ei siom nad yw addysg Gymraeg wedi tyfu cymaint â hynny yn yr 20 mlynedd diwethaf ac mai yn 1976 yr agorwyd yr ysgol Gymraeg ddiwethaf, sef Ysgol Gymraeg Rhyd-y-Grug. Mae'n amlwg bod llawer o waith eto i'w wneud gan y Cyngor. Soniodd am waith y Fenter a'r cydweithio sydd wedi datblygu gyda'r Cyngor, e.e. cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith, darparu cytundeb cyfieithu ayb. Nodwyd bod agweddau o fewn y Cyngor yn llawer iachach erbyn hyn a bod hynny'n cynnig cyfle pellach i ddatblygu'r Gymraeg yn y sir. Mae disgwyliad y Llywodraeth i bob Menter iaith gyflwyno Cynllun Corfforaethol yn gyfle i lunio strategaeth gyfannol, strwythuredig er mwyn datblygu'r Gymraeg drwy gydweithio, adnabod bylchau a nodi'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar hyn o bryd ym Merthyr. Mae'n rhaid mynd i'r afael â materion megis diffyg plant yn mynd i fewn i'r sector, diffyg ymwybyddiaeth am addysg Gymraeg, diffyg dilyniant ac ati. Rhaid rhoi sylw hefyd i'r gwaith o ddangos beth all plant a phobl ifanc ei wneud gyda'r Gymraeg wedi iddynt adael y byd addysg. Un o'r

rhwystrau pennaf yw: pam nad ydym ni fel mudiadau Cymraeg yn cydweithio mwy? Mae perygl bod pob sefydliad sy'n gweithio i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn gweithio yn eu swigen eu hunain, a thrwy hynny, yn colli golwg ar botensial yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd. Mynegwyd rhwystredigaeth nad oes Swyddog TWF yn yr ardal a bod hynny yn llyffetheirio'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a chynyddu niferoedd. Un llwyddiant mawr yn lleol yw ymdrechion Cymraeg i Oedolion, sy'n gwneud gwaith arbennig ac yn llwyddo i ddenu a chadw nifer uchel o ddysgwyr. Blaenoriaethau'r dyfodol yw cynyddu'r galw er mwyn sicrhau 3ydd ysgol gynradd a'r angen i fod yn llai adweithiol ac i gynllunio yn fwy strategol o flaen llaw.

Huw Williams

Cafwyd blas ar brofiad Ymgyrch TAG wrth i rieni yng Nghaerdydd frwydro am dair blynedd i agor ysgol gynradd Gymraeg i wasanaethu Tre-biwt a Grangetown. Cyfeiriwyd at natur amlethnig unigryw yr ardal, sef bod 40% o drigolion yr ardal yn perthyn i gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Roedd yr ymgyrch nid yn unig yn frwydr i sicrhau addysg Gymraeg i'w plant ond hefyd yn gyfle i chwalu'r rhagfarnau tuag at yr iaith. Cafwyd hanes y penderfyniad gwreiddiol i beidio bwrw ymlaen ag adeiladu'r ysgol a dyrannu'r cyllid i ehangu Ysgol Pwll Coch; cyfarfod craffu pan alwyd y penderfyniad hwnnw i mewn a'r cyfnodau o ymgynghoriadau di-ri wrth i'r Cyngor gyflwyno opsiynau niferus ar gyfer darparu ysgol Gymraeg yn yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys cynllun hynod ddadleuol i'w adeiladu ar safle Canolfan Hamdden Channel View, cynnig a ysgogodd ymateb chwynn a chreu cryn ddrwgdeimlad yn y gymuned leol. Amlygwyd tactegau a gemau gwleidyddol brwnt yn ystod yr ymgyrch, ond un digwyddiad arwyddocaol oedd newid yn arweinyddiaeth y Blaid Lafur ar Gyngor Caerdydd, gan sicrhau cefnogaeth i agor yr ysgol newydd. Bydd yr ysgol yn agor ar safle ym mharc Hamadryad, Tre-biwt gyda disgwyl i'r cynllun gael sêl bendith ym mis Rhagfyr. Wrth grynhoi, nodwyd bod nifer o wersi i'w dysgu, gan gynnwys: (i) dylanwad cyngorau ac unigolion o fewn y sefydliadau hynny; (ii) yr angen i gydweithio, sy'n gwbl allweddol a'r angen i fanteisio ar yr adnoddau a'r cyfleoedd sydd i gyd-grynhoi darparu gwasanaethau lle mae hynny'n bosibl; (iii) y gwendidau sylfaenol yn y ffordd y mae ALI yn cyfathrebu gyda rhieni. Amlygodd yr ymgyrch yr angen i ymgyrchu, herio a beirniadu'r Cyngor am eu methiannau ond hefyd i ganfod pob cyfle posibl i gydweithio mewn modd gadarnhaol gyda'r Sir.

Trafodaeth gyffredinol:

- Oes cyfle i greu taflen yn crynhoi profiadau rhieni wrth ymgyrchu e.e. TAG, Casnewydd ayb
- Oes cyfle i ddiweddarau'r gyfrol Gorau Arf?
- Nodwyd bod cangen RhAG yn Abertawe wedi mynd ati dair gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf i dafleddu ardaloedd penodol er mwyn creu'r galw. Gwersi yma i ardaloedd eraill.
- Mae bwriad gan nifer o siroedd i gynyddu'r trothwy cludiant am ddim o 1.5 milltir i 2 filltir yn mynd i gael effaith andwyol ar y sector cyfrwng Cymraeg. Mae arolwg hefyd a gynhaliwyd yn Ysgol

Gwynllyw yn dangos bod codi ffioedd ar addysg ôl-16 hefyd yn effeithio ar ddewisiadau disgyblion wrth i nifer cynyddol ddewis peidio parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd y gost.

- Awgrymwyd y dylid cynnal ymarferiad 'siopwr cudd' drwy ffonio'r adrannau addysg i holi am wybodaeth am addysg Gymraeg. Mae lle i gredu bod rhieni yn cael profiadau gwael ar hyn o bryd.
- Mae 'hyrwyddo' yn air budr gan siroedd. Does dim pwerau gan y ddeddf i herio siroedd a'u dal yn atebol.
- Mae safonau ysgolion cyfrwng Cymraeg Merthyr ymysg y gorau yng Nghymru gyfan ond nid oes digon yn cael ei wneud i ymfalchïo yn hynny ac i'w hyrwyddo ym Merthyr a thu hwnt.
- Pwysleiswyd bod y gwaith o hyrwyddo addysg Gymraeg yn allweddol bwysig. Mae angen i ganghennau RhAG ganfod mwy ffyrdd i gydweithio gyda'i gilydd a gyda mudiadau eraill i ddatblygu cyfleoedd er mwyn datblygu'r gwaith hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00yp. Diolchwyd i'r holl siaradwyr gwadd am eu cyfraniadau gwerthfawr ac i bawb am fynychu.